

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 24ain o Fehefin 2020 am 7.30 o'r gloch yn drwy gyfrwng zoom.

Presennol; Cynghorwyr Berwyn Hughes, Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Catrin Jones, Arfon Hughes, Robin Hughes, Berwyn Harding, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is-Gadeirydd y Cynghorydd

Berwyn Hughes. Eglurodd y Clerc fod hwn yn gyfarfod agored i'r cyhoedd yn unol a'r drefn arferol, a bod hysbysiad cyhoeddus wedi ei wneud, gan gynnwys y wefan, gyda chyfle i'r cyhoedd gysylltu a'r Clerc.

Eglurodd y Clerc hefyd nad oedd hwn yn Gyfarfod Blynyddol, ac y byddai rhaid trefnu hynny pan fyddai modd dychwelyd i wneud y cyfarfodydd arferol.

Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng. Iwan Foulkes, Sion Alun Roberts, a Geraint Morgans.

Mynegwyd cydymdeimlad gyda'r Cyng John P Roberts (Cyngor Gwynedd) yn ei brofedigaeth diweddar (ymatebodd John drwy ddweud fod gwell ganddo beidio derbyn hyn gan Gynghorwyr, o gofio beth sydd wedi digwydd yn y Cyngor, gan fod hyn wedi effeithio ar Rhian - a gofynnodd i hyn gael ei gofnodi)

2. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gyfarfu ar yr 11eg o Fawrth fel rhai cywir ar gynnig Cyng Hedd Pugh a'i eilio gan Berwyn Harding.

3. Materion yn codi .

a. Materion Priffyrdd – adroddwyd ymateb Cyngor Gwynedd i'r materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf – roedd y llythyr wedi ei ddanfôn ymlaenllaw i'r Cynghorwyr. O ran biniau cadw graean, byddai rhaid trafod hyn eto. Nodwyd nad oedd ymateb gan Mervyn Wyn Morris o'r Adran Cefnffyrdd, a byddai rhaid cael cyfarfod safle pan fyddai rheolau Covid19 wedi llacio.

b. Gohebiaeth Pennaeth Cynllunio Parc Eryri – roedd e-bost Jonathan Cawley wedi ei ddanfôn ymlaen llaw i'r Cynghorwyr. Roedd yn egluro 8 achos lle na ddyliai hawliau dirprwyedig gael eu defnyddio, dau yn berthnasol i achos Cefn Gwyn, sef bod corff fel y Cyngor Cymuned yn mynegi barn ar sail rhesymau cadarn, a bod Aelod o'r Awdurdod yn gwneud cais ysgrfenedig, gyda rhesymau cynllunio cadarn, i alw y cais i mewn. Roedd yn nodi nad oedd rheswn cynllunio cadarn wedi ei nodi gan y Cyngor Cymuned. Roedd yn nodi hefyd y gallai unrhyw aelod o'r Awdurdod alw y cais i mewn, ond yn achos Cefngwyn, ni dderbyniwyd cais gan unrhyw aelod. Dywedodd Y Cyng John P Roberts unwaith eto na allai ef fod wedi tynnu y cais i mewn gan nad oedd y Cyngor Cymuned wedi rhoi rheswm am ein barn. Gwelwyd fod angen eglurhad pellach, a chadarnhawyd eto i wahodd Jonathan Cawley i'n cyfarfod nesaf. Awgwrymwyd hefyd cael cwrs hyfforddiant ar y materion yma.

4. Materion Cynllunio.

Roedd un cais wedi ei ddsbarthu ers y cyfarfod diwethaf, sef Adeiladu Ty, Tir ger y fynwent , Dinas Mawddwy. Roedd ymatebion eisoes i law.

Rhoddodd y Clerc grynodedb o ymateb y Cynghorwyr ar e-bost, sef bod Cyngor Cymuned Mawddwy yn gefnogol iawn i'r cais yma. Nodwyd y rhesymau;

- Maent yn deulu o Gymry Cymraeg lleol, sy'n cyfrannu l weithgarwch ac economi leol.
- Yn berson sydd yn gweithio'n lleol, y tir yn perthyn l'r teulu ac angen ty addas l'w hanghenion. Mor braf gweld pobl ifanc eisiau aros l fyw a gweithio yn yr ardal.
- Yr adeilad presennol ar y safle yn furddyn digon hyll, a byddai adeiladu ty yno o ddeunyddiau lleol yn gwella golwg y pentref a'r gymuned. Hefyd y ty arfaethedig yn gweddu l weddill adeiladau'r pentref.
- Safle delfrydol l wasanaethau dwr, carthffosiaeth a thrydan, ac mewn man sy'n cael haul rhan fwyaf o ddiwrnodau'r flwyddyn.
- Gyda chyfeiriad at bolisiau'r Parc, a bod y safle ar dir eithriedig ac mai ty fforddiadwy a geir ei godi fel arfer ar safle tu allan l'r ffin, - noder fod hwn yn safle pwysig y dylid ei gefnogi.
- Ni fydd yr annedd yn amharu ar unrhyw gymdogion nac yn effeithio ar olygfa unrhyw un.

5. Materion Cyllid.

- a) **Cyfrifon 2019-20** – adroddod y Clerc y sefyllfa ddiweddaraf. Roedd e-byst am y sefyllfa wedi eu danfon l bawb eisoes, sef ar yr 19 eg o Fawrth ac ar y 23ain o Ebrill. Roedd yr holl waith wedi ei sganio eleni a'i ddanfon l'r archwilydd mewnol yng Nghaernarfon ar yr 17eg o Fai. Roedd y Clerc wedi cael y cyfrifon yn ol wedi ei cadarnhau yn gynharach yn y diwrnod, a byddent yn cael eu rhoi gerbron yn y cyfarod nesaf. Byddai hysbyseb bwrpasol ar wefan y Cyngor, ac roedd gwybodaeth wedi ei ddanfon l'r Archwilydwr allanol , sef BDO Southampton. Byddai cyfnod yr ymgynghori eleni ym mis Medi.
- b) **Penderfynnu ar geisiadau am arian sydd i law.** Roedd un cais drwy law y Clerc, sef;

Ty Gobaith – cytunwyd cyfraniad o £250 ar gynnig Cyng Arfon Hughes a'i eilio gan Cyng Hedd Pugh.

- c) Adroddodd y Clerc ei fod yn awyddus i ymuno a **Chymdeithas y Clercod (SLCC)** gan fod nifer o Glercod eraill yr oedd yn eu hadnabod yn cael budd o ran rhannu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Dywedodd y Clerc y byddai yn cyfarfod y gost ei hun, ond yn dilyn trafodaeth, cytunwyd - ar gynnig Cyng Catrin Jones a'l eilio gan Cyng. Hedd Pugh - fod y Cyngor Cymuned yn talu, ac adolygu hyn yn flynyddol.
- d) Roedd llythyrau o ddiolch i law ar ran yr Cylch Meithrin, Ambiwlans Awyr ac Eisteddfod y Grogolith.
- e) Cyfeiriwyd at e-bost a ddanfonwyd l bawb ar y 6ed o Fai yn cadarnhau fod yswiriant y Cyngor wedi ei dalu, sef cyfanswm o £278.40. Yn y cyswllt hyn, cyfeiriodd y Clerc at y ffaith ei fod wedi hysbysu y cwmni o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn diwethaf, sef y llythyrau cyfreithiol a gafwyd, a gohebiaeth gan yr Ombwdsman, gan fod yna orchudd yswiriant gannem at faterion fel hyn pe byddai costau yn erbyn y Cyngor Cymuned.

6. Gohebiaeth.

- a) Cyfeiriwyd at yr ohebiaeth a ddanfonwyd i bawb ynglyn a rampiau ar Bont Dolybont, a bod pawb yn gytun efo hyn.
- b) Amlinellwyd yr holl ohebiaeth gan Gyngor Gwynedd gyda chais Red Bull Hardline, a bod y mwyafrif clir o'r Cynghorwyr wedi dweud drwy e-bost na ddylai y digwyddiad gael ei gynnal eleni. Cafwyd datganiad diddordeb gan y Cyng. Bewyn Hughes. Roedd yr e-byst wedi eu rhannu i bawb, gyda mwyafrif yn dweud y byddai hyn yn ormod o risc, bod pob digwyddiad arall yn y Dinas wedi ei ohirio, ac hefyd roedd rhaid cofio fod yna unigolion bregus yn yr ardal. Nodwyd hefyd nad yw'r Parc Cenedlaethol yn cynnal gweithgareddau yn y rhan fwyaf o'i mynyddoedd. Roedd e-bost pellach gan y Red Bull eu hunain dyddiedig 24 Mehefin (15.53) wedi ei ddsbarthu i'r Cynghorwyr yn gofyn am ystyriaeth pellach. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd na ellir newid ein penderfyniad ar hyn o bryd. Roedd teimlad nad oedd hyn yn benderfyniad y gallai'r Cyngor Cymuned ei wneud – o leiaf nes y byddai y rheolau presennol wedi newid.
- c) Cyfeiriwyd at ymgynghoriad gan y Parc Cenedlaethol ynglyn a agor mynyddoedd, gan gynnwys Cadair Idris, Aran Benllyn ac Aran Fawddwy – sef pa fesurau i leihau effaith, pa negeseuon i'w rhoi ymhob safle, a pha gymorth oedd ei angen yn y tymor byr. Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cyng. Berwyn Hughes, Hedd Pugh, Catrin Jones a John P Jones. Trafodwyd fod angen arwyddion i sicrhau cadw pellter, ac a oedd posib cael deunydd diheintio ar ee gataiau, clwydi a chamfeydd. Gofynnwyd hefyd sut oedd modd plismona, o ystyried bod llwybrau yn aml yn gul, a cael sustem 'un ffordd' bron yn amhosib. Nodwyd hefyd nad oedd y Parc Cenedlaethol wedi ymgynghori pan gaewyd y safleodd yma yn y lle cyntaf. Yn y cyswllt yma, cyfeiriodd y Cyng Arfon Hughes at y posibilrwydd yn y dyfodol o gael ymwelwyr i dalu am fynediad, fel mecanwaith i gael incwm i gymunedau.
- d) Dywedodd y Clerc ei fod wedi cael galwad ffon gan Stephen Tudor o Gemaes yn ddiweddar, ac wedi dosbarthu gohebiaeth am sgwrs yr oedd ef wedi ei gael gyda Richard Elis Jones Tyncoed tua dechrau'r 1970'au ynglyn a cholli bywydau drwy gancr, - sef a oedd yna gysylltiad gyda chyflenwadau dwr, ac a oedd perygl mewn rhedyn. Yn y cyswllt yma, soniwyd am ychydig o gefndir, a'r arolygon oedd wedi ei wneud gan wyddonwyr oedd yn dod i'r ardal. Nodwyd y sylwadau.

7. Unrhyw Fater arall.

- a) Roedd rhai o gerrig y fynwent yn y Dinas yn gwyro, a gallent fod yn beryglys. Gwelwyd fod angen gwneud arolwg o'r sefyllfa, fel a wnaethpwyd rai blynyddoedd yn ol. Penderfynwyd y dylai'r Clerc yn y lle cyntaf wneud ymholiadau gyda chwmni HB Williams a'i Fab. Penderfynwyd ymhellach i geisio gwneud hyn dros y 3 mynwent sydd yn gyfrifoldeb y Cyngor.
- b) Roedd gor-dyfiant ar ochr y tir comin Y Clipiau, Aberanell – sef o Pantycelyn i gyfeiriad Tymawr. Roedd hyn yn wir hefyd am Bont Walton, Aberangell gyda choed yn tyfu bob ochr.
- c) Roedd gwteri wedi blocio ar y ffordd o Fallwyd i fynny am Ty Uchaf, ac angen sylw.
- d) Roedd yna angen torri gwrych ar ymyl y gefnffordd A458 rhwng Dugoed Bach a'r Tyrpeg.
- e) Roedd pryder am goed oedd wedi dod i lawr yr afon yng Nghywarch, ac yn parhau o dan Pont Lydan. Roedd angen eu clirio i osgoi unrhyw ddifrod i'r bont mewn llif yn y dyfodol.

- f) Roedd yna lanast ar ochr y ffordd ar Rhiw Landrin, sef o'r Llew Coch i lawr am Dolbont.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; CYFARFOD BLYNYDDOL, NOS FERCHER 5ed o Awst yn Neuadd Dinas Mawddwy am 7.30 O'R GLOCH (os byddai y rheolau yn caniatáu) Os na fyddai modd gwneud hyn, yna byddai rhaid cynnal cyfarfod arferol drwy zoom.

Cadarnhawyd a chytunwyd hefyd ddyddiadau cyfarfodydd am weddill 2020/21, sef 16eg Medi, 21ain Hydref, 9fed o Ragfyr, 27ain o Ionawr a 10fed o Fawrth.